

ADRODDIAD YSGOL EIFIONYDD

Hydref 2015



Cyngor Ysgol

Etholwyd aelodau newydd i'r Cyngor Ysgol ar gyfer y flwyddyn addysgol hon. Caiff un disgybl o bob dosbarth cofrestru eu hethol i gynrychioli y dosbarth hwnnw. Pwrpas y Cyngor Ysgol yw trafod materion o bwys i'r disgyblion. Dyma rhestr o'r disgyblion a etholwyd i'r Cyngor Ysgol eleni : Nansi Davies-Hughes, Alaw Jones, Llyr Trythall, Ifan Price, Brychan Vaughan Evans, Lowri Jones, Gwion Jones, Erin Jones-Parry, Hollie Fitzjohn, Seren Pritchard, Jamie Knight, Carmel Jones, Callum Jones, Thomas Morris a Deio Williams. (Llun: Nigel Hughes)



Cynhadledd Mathemateg

Treuliodd deuddeg o ddisgyblion Bl.11 y diwrnod ym Mhrifysgol Bangor mewn cynhadledd Mathemateg. Bwriad y diwrnod oedd dangos y cyfleoedd sydd ar gael i'r disgyblion pe baen nhw'n dewis parhau i astudio Mathemateg. Cawsant nifer o gyflwyniadau diddorol ac fe elwodd y disgyblion yn fawr o'r profiad.

Ymweliad â'r theatr

Treuliodd nifer o ddisgyblion Bl.11 brynhawn yn Venue Cymru, Llandudno yn gwyllo cynhyrchiad o 'An Inspector Calls' gan J.B.Priestley. Mae hon yn ddrama osod Llenyddiaeth Saesneg ac fe fu'r profiad o weld y ddrama yn cael ei pherfformio o fudd mawr iddynt. Diolch i athrawon Yr Adran Saesneg am drefnu'r daith.



Cystadleuaeth 'Young Writers'

Mae nifer o ddisgyblion Bl.8 wedi bod yn llwyddiannus mewn cystadleuaeth 'Young Writers'. Bydd eu gwaith yn cael ei gyhoeddi mewn cyfrol o'r enw 'Grim Tales'. (Llun: Nigel Hughes)



Ymweliad Technocamps

Bu ymweliad Technocamps â'r Ysgol gyda disgyblion Blwyddyn 10 sy'n dilyn cwrs cyfrifiadureg ym mis Medi. Cafodd y disgyblion brofiad o adeiladu a rheoli robot gan ddefnyddio Lego Mindstorm.



Bore Coffi Macmillan

Cynhaliwyd bore coffi Macmillan yn yr ysgol ar gyfer y staff er mwyn cefnogi'r elusen pwysig yma. Bu nifer o'r staff yn brysur yn pobi ar gyfer y digwyddiad a chafodd pawb fwynhad yn cael sgwrs dros baned a chacen. Llwyddwyd i godi dros £150 at yr elusen. Diolch i Miss. Catrin Griffiths ac i Mrs. Brenda Dobson am drefnu'r digwyddiad.

Apêl bocsys esgidiau T4U

Unwaith eto eleni mae'r ysgol yn cefnogi apêl T4U i anfon bocsys esgidiau yn llawn nwyddau i blant bach yng nghymunedau tlawd Rwmania. Bydd y bocsys yn cael eu derbyn hyd at Dachwedd 9fed. Mae modd i'r disgyblion baratoi bocsys cyflawn neu ddod a nwyddau i'w rhoi yn y bocsys. Mae rhestr o'r hyn sydd yn cael ei ganiatau ar gael yn yr ysgol. Gwerthfawrogn unrhyw gyfraniad i'r apêl i sicrhau ychydig o hapusrwydd i blant bach llai ffodus.

Chwaraeon

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Mian Siôn, Cassia Pike, Cari Davies ac Erin Parry sydd wedi cael eu dewis i chwarae hoci i dîm dan 16oed Meirion Dwyfor. (Llun: Nigel Hughes)



Cyflwynwyd gwobr disgybl 5x60 y flwyddyn i Awen Puw. Cyflwynir y wobwr i'r disgybl sydd wedi cymryd rhan yn y nifer fwyaf o sesiynau 5x60 amser cinio ac ar ôl ysgol. Mae nifer o weithgareddau 5x60 yn cael eu cynnal yn ystod amser cinio ac ar ôl ysgol eto eleni ac annogir y plant i fanteisio ar y cyfleoedd yma. Gellir gweld amserlen 5x60 ar wefan yr ysgol. (Llun: Nigel Hughes)



Mae Medi Harris yn prysur wneud enw iddi hi ei hun ym myd nofio. Yn dilyn nifer o lwyddiannau mae Medi erbyn hyn ar restr deg uchaf yn Y Deyrnas Unedig ac yn uchel iawn ymysg nofwyr ifanc Cymru. Mae Medi wedi cael ei dewis i nofio i'r tîm ieuenctid cenedlaethol dan 15oed. Tipyn o gamp! Dymuniadau gorau iddi yn y dyfodol. (Llun: Nigel Hughes)



Roedd yr haul yn gwenu ar Borthmadog wrth i Ysgol Eifionydd wynebu Ysgol Glan y Môr mewn gêm bêldroed ar gyfer merched Bl.7 ac 8. Merched Eifionydd oedd yn fuddugol gyda Saskia Pike yn sgorio unig gôl y gêm. Da iawn chi genod!



Cynhaliwyd cystadleuaeth caiacio 5x60 yn Y Bala ar Hydref 2il. Roedd y tywydd yn fendigedig ac fe fu nifer o fechgyn a merched yn cynrychioli Ysgol Eifionydd. Llwyddodd genethod Bl.7 ac 8 i ddod yn ail, sef Abi Lewis a Morgan Lane. Fodd bynnag, llwyddodd Elise Connor, Sian Rees a Hollie Fitzjohn i ddod yn gyntaf yn y gystadleuaeth i ferched blynnyddoedd 9, 10 ac 11. Diolch i Miss. Jess Kavanagh am hebrwng y disgyblion.

